**Jane Hutt AS/MS**
**Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol**
**Minister for Social Justice**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JH-/00116/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN
Government.Committee.Business@llyw.cymru

11 Chwefror 2022

Annwyl Jack

Diolch am eich llythyr diweddar ar ran y Pwyllgor Deisebau yn ceisio sylwadau mewn perthynas â Deiseb P-06-1256. Mae’r ddeiseb hon yn gofyn inni ystyried y cais i gynnal refferendwm ar bolisi Cenedl Noddfa Llywodraeth Cymru, gan gyfeirio yn benodol at y costau sy'n gysylltiedig ag adsefydlu pobl sydd wedi cael eu symud o Affganistan.

Mae cydraddoldeb a hawliau dynol yn ganolog i waith Llywodraeth Cymru a'n gweledigaeth i Gymru. Maent hefyd wrth wraidd ein hunaniaeth genedlaethol. Nid awydd i gau llygad ar yr hyn sy'n digwydd sy'n diffinio cadernid y Cymry yn fy marn i, ond trugaredd â gwreiddiau dwfn yn ein hunaniaeth. Mae'r argyfwng a welsom yn Affganistan ar ddiwedd 2021, sy'n parhau hyd heddiw, yn dangos y ffordd y mae'r trugaredd a'r caredigrwydd hwn yn parhau yng nghalonnau'r Cymry.

Datblygwyd cynllun Cenedl Noddfa drwy ymgynghoriad agored dros gyfnod o dri mis a ddechreuodd ar 22 Mawrth 2018 ac a ddaeth i ben ar 24 Mehefin 2018. Gwnaethom gwrdd â gwasanaethau cyhoeddus a phobl a oedd yn chwilio am noddfa ledled Cymru a gwrando arnynt, cyn ac yn ystod yr ymgynghoriad. Roedd modd i'r cyhoedd gynnig sylwadau drwy'r ymgynghoriad hefyd. Mae copi o grynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad i'w weld yma. Fel y mae'r adroddiad yn ei adrodd yn glir, “Yn gyffredinol, mae'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn dangos cefnogaeth sylweddol i'r cynigion yn y fersiwn ddrafft o'r Cynllun.”

Dylwn hefyd nodi bod y ddeiseb hon yn debyg iawn i ddeiseb P-06-1174 a ddaeth gerbron eich Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2021. Yn ystod cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 13 Medi 2021, dwedodd Joel James AS, sy'n aelod o'r Pwyllgor, ei fod yn gwybod bod maniffesto'r Ceidwadwyr wedi cynnwys y syniad o greu cenedl noddfa yn flaenorol, a'i fod yn tybied bod maniffesto’r Blaid Lafur wedi cynnwys y syniad hwnnw hefyd. Dywedodd fod etholiad wedi cael ei gynnal yn ddiweddar, ac y dylai hynny rhoi pen ar y drafodaeth

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynghylch cynnig barn am y mater, ni waeth a yw pobl yn cefnogi canlyniad yr etholiad neu a ydynt yn fodlon arno. Ychwanegodd ei bod yn debyg y byddent yn cytuno yn y pen draw nad oes unrhyw gamau pellach i'w cymryd, ac y dylid cau'r ddeiseb mewn gwirionedd. Aeth ymlaen i ddweud bod trafodaethau helaeth eisoes wedi cael eu cynnal ar y mater hwn, yn Siambr y Senedd hyd yn oed.

Nod cynllun Cenedl Noddfa yw sicrhau bod pobl sy'n ceisio noddfa yn gallu ailsefydlu eu bywydau yma. Mae'n ymwneud â sicrhau bod modd iddynt fod yn rhan o'u cymunedau a chael cyfle i ddefnyddio eu sgiliau a'u profiadau cymaint â phosibl. Mae ymrwymiad y Llywodraeth hon i'r cynllun Cenedl Noddfa a'r bobl y mae'n ceisio eu cefnogi, gan gynnwys pobl o Affganistan, yn parhau i fod yn gadarn.

**Jane Hutt AS/MS**
Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol
Minister for Social Justice